**Ymateb i Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Dâl Uwch Reolwyr**

Rydym yn croesawu argymhellion yr adroddiad ac yn cytuno'n llwyr â hwy ac yn cynnig yr ymateb canlynol i'r 23 o argymhellion a geir ynddo.

Mae'r argymhellion yn amserol o ystyried y gwaith sy'n mynd rhagddo eisoes yn y maes hwn, ond maent hefyd yn heriol, yng ngoleuni'r cyfyngiadau ar adnoddau a wynebwn a'r amser y bydd yn ei gymryd i roi rhai o'r argymhellion ar waith yn llawn. O'r herwydd, rydym yn cynnig tynnu sylw sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru at yr adroddiad a gyhoeddwyd, gan nodi ein bod yn derbyn yr argymhellion ac yn eu hannog i'w mabwysiadu'n wirfoddol ar gam cynnar. Gwnawn hyn cyn y flwyddyn ariannol nesaf.

Bwriadwn roi nifer o'r argymhellion ar waith, sef y rhai sy'n ymwneud â diffiniadau, canllawiau a pholisïau ynglŷn â thâl uwch reolwyr drwy weithredu arnynt fel rhan o'r gwaith sy'n mynd rhagddo eisoes i ddatblygu Polisi Tâl i'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru. (Mae hyn yn gymwys i argymhellion 1, 3, 6, 9, 10, 11, 13, 15, 16, 17, 18, 19, 20, 21, 22, 23. Gweler Atodiad 1 am amserlen ddangosol ar gyfer y gwaith hwn.) Byddai ffocws cychwynnol y gwaith hwn yn cael ei estyn i gwmpasu a datblygu canllawiau ychwanegol ar dâl uwch reolwyr, arfer gorau a threfniadau llywodraethu a nodwyd yn yr adroddiad. Bydd yn ceisio dwyn ynghyd yr egwyddorion ynglŷn â thâl sydd eisoes wedi cael eu mabwysiadu gan Lywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi yn gyfres ehangach o drefniadau "mantell" a fyddai'n cwmpasu gwasanaethau cyhoeddus datganoledig. Fodd bynnag, nid yw pŵer Llywodraeth Cymru *i'w gwneud yn ofynnol* i sefydliadau gydymffurfio yn unffurf drwy'r sector cyhoeddus cyfan. Byddwn yn ystyried y mater hwn ar gam cynnar fel rhan o Gam (1) o gynllun cyflawni lefel uchel Tâl Sector Cyhoeddus Cymru, a nodir yn Atodiad 1, ac yn ymateb i'r Pwyllgor cyn gynted ag y bo modd ynglŷn â chwmpas y polisi.

At hynny, fel y noda'r adroddiad yn glir, mae diwygio llywodraeth leol a'r bwriad i sefydlu Comisiwn Staff i'r Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd yn gyfle delfrydol i fynd i'r afael â rhai o'r materion a nodwyd. Nodwyd cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer Comisiwn Staff i'r Gwasanaethau Cyhoeddus yn y "Papur Gwyn ar Ddatganoli, Democratiaeth a Chyflawni – Comisiwn Staff i'r Gwasanaethau Cyhoeddus" y daw'r ymgynghoriad yn ei gylch i ben ar 13 Ionawr 2015 (gweler Atodiad 2 am amserlen ddangosol.) Bydd y ffordd y bydd y Comisiwn Staff yn helpu i lunio ymateb y Llywodraeth i'r adroddiad hwn yn dibynnu ar benderfyniadau ynglŷn â'i rôl, ei gylch gwaith a'i raglen waith yng ngoleuni'r ymgynghoriad hwn.

Yn olaf, mae'r pwysau mawr a pharhaus ar ein hadnoddau yn golygu, er ein bod yn ymrwymedig i roi'r argymhellion ar waith, y bydd angen i'r gwaith hwn gael ei wneud yn unol â blaenoriaethau eraill y Llywodraeth o ystyried y broses o gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu.

**Argymhelliad 1. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod diffiniad clir o'r hyn a olygir gan swydd uwch yn y sector cyhoeddus yn cael ei lunio a'i ddosbarthu gan**

**Lywodraeth Cymru. Dylai hyn ystyried lefel y taliadau cydnabyddiaeth, graddfa'r sefydliad dan sylw a lefel cyfrifoldeb y deiliad swydd.**

**Derbyn -** Rydym yn derbyn y bydd diffiniad clir o'r hyn a olygir gan swydd uwch yn y sector cyhoeddus yn helpu i sicrhau dealltwriaeth gyffredin, yn helpu i'w gwneud yn haws cymharu swyddi, sefydliadau a sectorau, ac yn y pen draw yn sicrhau cysondeb.

Rydym hefyd yn derbyn bod pob sefydliad yn wahanol ac y bydd ganddo derminoleg ac arferion wedi'u teilwra. Rydym yn croesawu cydnabyddiaeth y pwyllgor na fydd angen 'un diffiniad i bawb' o reidrwydd.

Caiff y gwaith o ddatblygu diffiniad o uwch swydd ei wneud fel rhan o bennu Cyfarwyddiadau o fewn Polisi ehangach ynglŷn â Thâl yn y Sector Cyhoeddus yng Nghymru fel y'i nodir yn yr amserlen ddangosol yn Atodiad 1.

**Argymhelliad 2. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio ei gwaith yn ad-drefnu llywodraeth leol i ystyried yr opsiynau ar gyfer cyflwyno mwy o gysondeb o ran cyflogau uwch reolwyr mewn Llywodraeth Leol. Dylid cyhoeddi sail resymegol glir i sicrhau bod eglurder o ran sut y dylid pennu cyflogau mewn unrhyw strwythur newydd a gyflwynir. O ystyried y penderfyniadau diweddar gan rai cynghorau i ystyried uno gwirfoddol, dylid rhoi hyn ar waith ar unwaith. Hefyd, dylid cynnwys y broses o uno gwirfoddol wrth ystyried unrhyw strwythurau cyflog.**

**Derbyn -** Caiff materion sy'n ymwneud â thâl uwch reolwyr eu hystyried wrth ymgymryd â'r broses o ddiwygio llywodraeth leol, gan sicrhau ymwneud rhanddeiliaid perthnasol, a chyfraniad i waith Comisiwn Staff arfaethedig i'r Gwasanaethau Cyhoeddus y mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori yn ei gylch ar hyn o bryd. Bydd y Comisiwn Staff yn nodi ac yn cynnig atebion ymarferol i broblemau sy'n codi yn sgil y broses ddiwygio y gellir eu hystyried a'u gweithredu. Er mwyn sicrhau y gall y Comisiwn Staff i'r Gwasanaethau Cyhoeddus helpu unrhyw Awdurdodau Lleol i uno'n wirfoddol, yn unol â'r amserlen a nodwyd yn y *Papur Gwyn ar Ddiwygio Llywodraeth Leol*, rydym yn anelu at ei sefydlu ar sail anstatudol, erbyn mis Ebrill 2015 Yn dibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad, wedyn byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth ar ôl etholiad nesaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru, er mwyn rhoi statws statudol i'r Comisiwn.

**Argymhelliad 3. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn llunio a chyhoeddi geirfa mewn perthynas â chyflogau uwch-reolwyr, sy'n nodi'r termau mwyaf priodol i'w defnyddio mewn datgeliadau cyflog, ynghyd ag esboniadau ar gyfer termau a ddefnyddir yn llai aml. Mae'r Pwyllgor yn argymell hefyd fod naratif i gyfrifon yn cynnwys nodiadau digonol sy'n hawdd eu dehongli ac sy'n darparu esboniad clir o unrhyw sefyllfaoedd anarferol.**

**Derbyn -** Rydym yn derbyn y dylid llunio rhestr o'r termau sy'n ymwneud â thâl uwch reolwyr, a byddwn yn gwneud hyn fel rhan o'r broses o bennu Cyfarwyddiadau o fewn Polisi ehangach ynglŷn â Thâl yn y Sector Cyhoeddus yng Nghymru fel y'i nodwyd yn yr amserlen ddangosol yn Atodiad 1.

Byddwn yn rhoi'r ail ran o'r argymhelliad hwn ar waith fel rhan o'n hymateb i Argymhelliad 19.

**Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod eitemau sy'n ymwneud â materion cyflog yn cael eu rhestru'n glir ac ar wahân ar bob agenda (Lefel y Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor). Gallai hyn olygu bod angen diwygio'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Penderfyniadau, Dogfennau a Chyfarfodydd) (Cymru) (Diwygio).**

**Derbyn –** Rydym wedi nodi'n glir i Awdurdodau Lleol bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl i faterion sy'n ymwneud â thâl uwch reolwyr gael eu trin mewn ffordd agored a thryloyw. Rydym eisoes wedi deddfu i roi hyn ar waith drwy Ddeddf Democratiaeth Leol (Cymru) 2013, ein canllawiau ar ddatganiadau polisi am dâl a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygio) 2014. At hynny, byddwn yn ysgrifennu at yr Awdurdodau Lleol i dynnu eu sylw at yr adroddiad hwn.

Byddwn hefyd yn gweithredu ar hyn fel rhan o'n gwaith o ddiwygio llywodraeth leol yng Nghymru. Byddwn yn ystyried yn ofalus y ffordd orau o gyflawni'r nodau sy'n sail i'r argymhelliad hwn. Os bydd angen diwygiadau deddfwriaethol, byddwn yn ymgymryd â'r rhain yn unol â'r amserlen ar gyfer ein rhaglen ehangach o ddiwygio llywodraeth leol (Gweler Atodiad 2).

**Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau clir i awdurdodau lleol yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ffioedd Swyddogion Canlyniadau gael eu cyhoeddi mewn lle hawdd cael gafael arnynt ochr yn ochr â gwybodaeth am daliadau cydnabyddiaeth. Dylai hyn gynnwys esboniadau clir am yr hawl hwn.**

**Derbyn –** Byddwn yn ysgrifennu at bob Awdurdod Lleol a thynnu ei sylw at yr Adroddiad hwn. Byddwn hefyd yn gweithredu ar hyn fel rhan o'n gwaith o ddiwygio llywodraeth leol yng Nghymru. At hynny, byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Comisiwn Etholiadol er mwyn sicrhau y caiff arfer gorau ei ddilyn mewn perthynas â chyhoeddi cyfrifon Swyddogion Canlyniadau yn etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol.

**Argymhelliad 6. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru, a chyrff eraill sy'n cyhoeddi cyfarwyddiadau cyfrifon, yn adolygu mecanweithiau, gan gynnwys amodau grant, ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â'r datgeliadau cydnabyddiaeth, ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar sut mae'n bwriadu sicrhau cydymffurfiaeth lawn.**

**Derbyn -** Byddwn yn cynnal adolygiad o'r trefniadau monitro sy'n gysylltiedig â Chyfarwyddiadau Cyfrifon ac yn adrodd yn ôl i'r pwyllgor fel y'i nodwyd yn yr amserlen yn Atodiad 1.

**Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn llunio a dosbarthu canllawiau ar sut i reoli trefniadau cyflog ar gyfer cyd-benodiadau rhwng awdurdodau lleol, am fod cynnydd yn y mathau hyn o benodiadau. Dylai**

**hyn gynnwys yr angen i ddatgelu'r cyflogau hyn yng nghyfrifon pob awdurdod lleol sy'n cyfrannu, ynghyd ag esboniad clir o lefel y cyfraniad yn y nodiadau i'r cyfrifon.**

**Derbyn -** Mae'r Canllawiau statudol a gyhoeddwyd ar wefan Llywodraeth Cymru ar baratoi datganiadau polisi am dâl yn egluro bod yn rhaid i Awdurdodau gynnwys cyflog blynyddol amcangyfrifedig unrhyw gyd-benodiadau ag Awdurdodau Lleol eraill ynghyd â'r arbedion canlyniadol yn y Datganiadau hyn. Byddwn yn ystyried a oes angen diweddaru'r Canllawiau ymhellach. Caiff y gofynion ynglŷn â datgeliadau Cyfrifon a nodir yn y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) eu cymhwyso at staff a gyflogir ar sail dros dro neu ran amser. Cymhwysir lefel y datgeliad ar sail pro rata. Byddwn yn ystyried a oes angen newidiadau pellach i'r Rheoliadau hyn.

**Argymhelliad 8. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried cyfansoddiad a threfn recriwtio Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, wrth i swyddi ddod ar gael, i sicrhau ei fod yn cynrychioli cymdeithas sifil ehangach.**

**Derbyn -** Mae gennym ymrwymiad clir i sicrhau mwy o amrywiaeth ym maes llywodraeth leol a thrwy'r sector cyhoeddus cyfan ac mae'n briodol bod ein penodiadau cyhoeddus yn adlewyrchu'r uchelgais honno.

Dylid nodi bod y Panel, o dan ei fenter ei hun, wedi cymryd camau i sicrhau bod ei waith yn cael ei ddeall yn fwy cyffredinol ymhlith rhwydweithiau amrywiol yn y gobaith y bydd hynny'n ennyn diddordeb grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol pan ddaw swyddi i fod yn aelod o'r Panel yn wag.

**Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod gwybodaeth am bwyllgorau taliadau ledled y sector cyhoeddus a'u penderfyniadau'n cael eu cyhoeddi mewn lleoliad hygyrch ac amlwg ar wefan y sefydliadau.**

**Derbyn -** Rydym yn derbyn y dylai gwybodaeth am bwyllgorau taliadau fod ar gael yn gyffredinol ac y dylai eu penderfyniadau gael eu cyhoeddi mewn man amlwg mewn ffordd briodol. Rydym yn dal i roi sylw i'r ffordd y câi'r wybodaeth hon ei chyflwyno'n effeithiol ar ein gwefan ein hunain. Caiff hyn ei wneud fel rhan o bennu cyfarwyddiadau o fewn Polisi ehangach ynglŷn â Thâl yn y Sector Cyhoeddus yng Nghymru fel y'i nodir yn yr amserlen ddangosol yn Atodiad 1.

**Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn llunio canllawiau arfer da ar gyfer pwyllgorau taliadau yn nodi egwyddorion allweddol bod yn agored a thryloyw. Ochr yn ochr â'r canllawiau hyn, argymhellwn y dylid cynnal nifer o seminarau/sesiynau hyfforddi sy'n nodi'r egwyddorion hyn ac yn datblygu'r sgiliau pwysig sydd eu hangen i fod yn aelod effeithiol o banel taliadau.**

**Derbyn -** Rydym yn derbyn bod pob sector yn debygol o weithredu eu pwyllgorau

taliadau yn wahanol a bod aelodau paneli yn chwarae rhan bwysig yn y broses o sefydlu trefniadau tâl i uwch reolwyr.

Rydym hefyd yn derbyn y dylid datblygu canllaw arfer da i bwyllgorau taliadau, a hyfforddiant o bosibl i aelodau paneli er mwyn helpu i'w hannog i fod yn agored ac yn dryloyw. Caiff hyn ei wneud yn unol â'r amserlen a nodir yn Atodiad 1.

**Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn llunio canllawiau arferion gorau sy'n nodi'r ffyrdd gorau o ymgysylltu ag ymgynghorwyr allanol ynglŷn â chyflogau uwch reolwyr. Dylai hyn gynnwys yr angen i ryngweithio â'r grŵp perthnasol sy'n gwneud y penderfyniadau (er enghraifft, pwyllgor taliadau'r sefydliad) gydol y broses.**

**Derbyn -** Rydym yn derbyn bod risgiau'n gysylltiedig â defnyddio ymgynghorwyr allanol i roi cyngor ar dâl uwch reolwyr, yn enwedig pan fo un cyflenwr yn amlwg yn y maes. Rydym hefyd yn derbyn y dylid datblygu canllawiau arfer gorau yn unol â'r amserlen a nodir yn Atodiad 1 er mwyn helpu i sicrhau bod ystyriaethau o ran gwerth am arian yn cael sylw o hyd pan geisir cyngor ymgynghorydd.

**Argymhelliad 12. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda CLlLC a Swyddfa Archwilio Cymru i lunio canllawiau ar rôl uwch swyddogion mewn awdurdodau lleol wrth ddarparu cyngor mewn perthynas â materion cyflog.**

**Derbyn -** Mae'r ddeddfwriaeth y cyfeirir ati mewn perthynas ag Argymhelliad 4 eisoes wedi mynd i'r afael â'r mater hwn yn rhannol. Bydd deddfwriaeth sy'n rhan o'r Rhaglen ar gyfer Diwygio Llywodraeth Leol sydd i'w chyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Ionawr 2015 yn atgyfnerthu ymhellach y gofyniad i fod yn agored ac yn dryloyw yn y maes hwn. Wrth i'r Rhaglen ar gyfer Diwygio Llywodraeth Leol fynd rhagddi byddwn yn gweithio'n agos gyda Swyddfa Archwilio Cymru a'r Comisiwn Staff arfaethedig i'r Gwasanaethau Cyhoeddus o ran y mater hwn.

**Argymhelliad 13. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda sectorau llywodraeth leol, addysg uwch, addysg bellach, iechyd a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i sicrhau bod hyfforddiant a chanllawiau ar gyflogau uwch reolwyr yn cael eu darparu'n gyson i bob sector.**

**Derbyn -** Rydym yn derbyn bod Adrannau Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan yn y broses o roi hyfforddiant, cyngor a chanllawiau ynghylch tâl uwch reolwyr.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud popeth o fewn ei gallu i sicrhau y caiff hyfforddiant ei ddarparu'n gyson yn y sector cyhoeddus, yn amodol ar gyfyngiadau lle y mae gan gyrff reolaeth dros dâl. Yn yr achosion hyn, byddwn yn ceisio dylanwadu lle na allwn gyfarwyddo.

Er y byddem, er enghraifft, yn rhagweld y câi Addysg Uwch ac Addysg Bellach eu cynnwys yn y canllawiau, ni fyddai hyfforddiant yn briodol am fod prifysgolion a cholegau yn gyrff annibynnol. Bydd Llywodraeth Cymru yn monitro sefyllfa Addysg

Bellach a byddwn yn gofyn i CCAUC fonitro tâl uwch aelodau o staff yn y sector Addysg Uwch fel rhan o lythyr cylch gorchwyl y Gweinidog ar gyfer 2015/16.

Caiff y gwaith hwn ei wneud fel rhan o'r broses o bennu Cyfarwyddiadau mewn Polisi Tâl i'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru.

**Argymhelliad 14. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn atgoffa awdurdodau lleol o bwysigrwydd ac annibyniaeth rôl swyddogion monitro, a'r angen i sicrhau bod y rôl hon yn gweithredu'n effeithiol ledled y sefydliad ar lefel uwch. Dylai hyn atgoffa'r swyddogion monitro hefyd sut i roi gwybod am unrhyw bryderon yn fewnol neu'n allanol os oes angen.**

**Derbyn –** Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i benodi un o'u swyddogion yn Swyddog Monitro'r Cyngor. Maent yn chwarae rhan bwysig o ran sicrhau bod yr awdurdod yn dilyn gofynion cyfreithiol. Felly dylai awdurdodau sicrhau eu bod yn penodi unigolion y mae ganddynt wybodaeth a statws digonol i roi cyngor annymunol weithiau.

Cymeradwywyd Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) (Diwygio) 2014 gan y Cynulliad Cenedlaethol ym mis Mehefin eleni. Maent yn diogelu'r Swyddog Monitro (a rhai uwch swyddi eraill) rhag prosesau disgyblu annheg. Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod awdurdodau lleol, gan gynnwys swyddogion monitro, yn ymwybodol o'r rheoliadau hyn.

Byddwn yn ysgrifennu at bob Awdurdod Lleol er mwyn tynnu sylw at yr Adroddiad hwn.

**Argymhelliad 15. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cynnal astudiaeth i wahanol fecanweithiau cyflog, ac yn llunio adroddiad sy'n pennu'r hyn a ystyrir yn arfer da. Dylai hyn ystyried y ffordd orau o ymdrin ag uwch reolwyr mewn sefydliadau sy'n methu.**

**Derbyn -** Rydym yn disgwyl bod nifer o astudiaethau eisoes wedi'u cyhoeddi ynglŷn â'r mater hwn. Felly byddai adolygiad yn unol â'r amserlen a nodir yn Atodiad 1 yn defnyddio deunydd sy'n bodoli eisoes.

**Argymhelliad 16. Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau'r sector cyhoeddus nodi eu dull o ymdrin â chyflog ar sail perfformiad a rheoli doniau mewnol yn eu polisïau cyflog.**

**Derbyn -** Rydym yn cytuno y dylid ystyried datblygu a meithrin doniau mewnol lle bynnag y bo modd, ac yn derbyn y bydd enghreifftiau lle mae datblygiad gyrfa yn rhoi gwell gwerth am arian yn lle talu cyflog uwch i ddenu penodeion allanol.

Lle nad yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i gyfarwyddo sefydliadau yn y sector cyhoeddus i gydymffurfio, byddwn yn ceisio eu hannog i fabwysiadu'r argymhelliad. Caiff y gwaith hwn ei wneud fel rhan o'r broses o bennu Cyfarwyddiadau mewn Polisi Tâl i'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru.

**Argymhelliad 17. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi cyngor a chanllawiau i Sector Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys y**

**sectorau hynny sy'n derbyn arian sylweddol gan Lywodraeth Cymru (e.e. landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, addysg bellach ac addysg uwch) ar y gofynion ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth am daliadau a pholisïau cyflog, gan ystyried argymhellion yr adroddiad hwn.**

**Derbyn -** Fel yr amlinellwyd mewn ymatebion blaenorol rydym yn derbyn y dylid datblygu canllawiau clir ar y gofyniad i gyhoeddi gwybodaeth am daliadau a pholisïau tâl. Lle na all Llywodraeth Cymru gyfarwyddo, byddwn yn ceisio annog sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru i gydymffurfio. Caiff y gwaith hwn ei wneud fel rhan o'r broses o bennu Cyfarwyddiadau mewn Polisi Tâl i'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru.

**Argymhelliad 18. Mae'r Pwyllgor yn argymell ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau'r sector cyhoeddus gyhoeddi gwybodaeth am nifer y gweithwyr sydd â phecyn taliadau o fwy na £100,000 mewn bandiau o £5,000.**

**Derbyn -** Rydym yn derbyn bod gan y canllawiau presennol ar ddatgelu drothwyon a gofynion bandio gwahanol. Rydym hefyd yn derbyn y bydd dull gweithredu mwy cyson yn helpu i wneud cymariaethau. Nodwn gyfeiriad y Pwyllgor at y defnydd o fandiau o £5,000 neu £10,000 yn yr adroddiad.

Lle nad yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i gyfarwyddo sefydliadau yn y sector cyhoeddus i gydymffurfio, byddwn yn ceisio eu hannog i fabwysiadu'r argymhelliad. Byddwn yn ystyried ac yn gweithredu ar yr argymhelliad fel rhan o'r broses o bennu Cyfarwyddiadau mewn Polisi Tâl ehangach i'r Sector Cyhoeddus yng Nghymru.

**Argymhelliad 19. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod pob sefydliad yn sector cyhoeddus Cymru yn llunio adroddiad taliadau llawn bob blwyddyn, a'i fod yn cael ei gyhoeddi mewn lle amlwg ar wefan y sefydliad. Dylai hyn nodi'n llawn y wybodaeth ganlynol am yr holl uwch staff, gan roi ystyriaeth ddilys i argymhelliad blaenorol y Pwyllgor am sicrhau y gellir dehongli'r wybodaeth a gyhoeddir yn hawdd:**

- **Cyflog;**
- **Pensiwn;**
- **Buddion mewn nwyddau;**
- **Buddion di-dreth;**
- **Pecynnau diswyddo;**
- **Ffioedd Swyddogion Canlyniadau/ffioedd ychwanegol;**
- **Y gymhareb gyflog rhwng cyflogau uchaf ac isaf swyddogion;**
- **Cyfansoddiad rhyw yr uwch dîm.**

**Derbyn -** Rydym yn cydnabod y dylai manylion taliadau ddilyn arferion datgelu presennol a chael eu cynnwys mewn Cyfrifon Blynyddol cyhoeddedig. Rydym hefyd yn derbyn y dylai gwybodaeth gyhoeddedig am gyrff sy'n cael arian cyhoeddus fod ar gael yn hawdd ac mewn fformat cyson ac mewn man amlwg. Byddwn yn gweithredu ar yr

argymhelliad hwn fel rhan o’r broses o bennu Cyfarwyddiadau mewn Polisi Tâl ehangach i’r Sector Cyhoeddus yng Nghymru.

**Argymhelliad 20. Mae’r Pwyllgor yn argymell ei gwneud yn ofynnol i bob sefydliad yn sector cyhoeddus Cymru gyhoeddi datganiad polisi cyflog, yn unol â’r gofynion ar Awdurdodau Lleol ac awdurdodau Tân ac Achub yn Neddf Lleoliaeth 2011.**

**Derbyn -** Rydym yn derbyn y dylai fod yn ofynnol i bob corff yn y sector cyhoeddus yng Nghymru lunio a chyhoeddi datganiad polisi cyflog.

Lle nad yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i gyfarwyddo sefydliadau yn y sector cyhoeddus i gydymffurfio, byddwn yn ceisio eu hannog i fabwysiadu’r argymhelliad. Caiff y gwaith hwn ei wneud fel rhan o’r broses o bennu Cyfarwyddiadau mewn Polisi Tâl i’r Sector Cyhoeddus yng Nghymru.

**Argymhelliad 21. Mae’r Pwyllgor yn argymell bod yr holl wybodaeth am gyflogau sefydliadau’n cael ei chyhoeddi mewn un lle hawdd cael ato ar eu gwefan ac yn nodi’r wybodaeth yn glir ac yn dryloyw. I wneud hyn, argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn llunio canllawiau ar fformat y datgeliad hwn. Credwn y bydd hyn yn sicrhau’r tryloywder gorau posibl ac atebolrwydd yn y pen draw.**

**Derbyn -** Rydym yn derbyn y dylai’r holl fanylion cyhoeddedig ynglŷn â thaliadau fod ar gael yn hawdd. Rydym hefyd yn derbyn y bydd canllawiau ar fformat datgeliadau yn helpu i sicrhau tryloywder. Caiff y gwaith hwn ei wneud fel rhan o’r broses o bennu Cyfarwyddiadau mewn Polisi Tâl i’r Sector Cyhoeddus yng Nghymru.

**Argymhelliad 22. Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud y gofynion hyn yn amod ar gyfer unrhyw grantiau neu gyllid a ddarperir i’r sefydliadau hynny na ellir eu dosbarthu’n llwyr i’r sector cyhoeddus (e.e. landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, darparwyr addysg bellach ac addysg uwch).**

**Derbyn -** Rydym yn cyd-fynd yn llwyr â’r pwyllgor y dylai’r rhai sy’n cael arian gael eu hannog i gydymffurfio â’r gofynion hyn. Fodd bynnag, mae angen cydbwyso’r amcan hwn â’r baich anghymesur y byddai’n ei roi ar sefydliadau cymharol fach. Hoffem ystyried hyn ymhellach ac ymateb eto i’r pwyllgor. Byddwn yn gwneud hyn yn unol â’r amserlen yn Atodiad 1.

**Argymhelliad 23. Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn coladu’r wybodaeth am gyflogau uwch reolwyr ledled sector cyhoeddus Cymru yn unol â’r wybodaeth a gyhoeddir gan Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i gynnwys y sectorau hynny sy’n derbyn arian sylweddol gan Lywodraeth Cymru (e.e. landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, addysg bellach ac addysg uwch) yn flynyddol a chyhoeddi hyn ar ei gwefan.**

**Derbyn -** Rydym yn derbyn y bydd llunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar dâl uwch reolwyr yn rhoi lefel arall o dryloywder ac yn cefnogi trefniadau monitro ehangach. Caiff hyn ei wneud yn unol â'r amserlen yn Atodiad 1.

**Atodiad 1**

**Egwyddorion Tâl Sector Cyhoeddus Cymru: Cynllun Cyflawni Lefel Uchel**

**Cam 1 – Paratoi**

Cynllunio – <u>erbyn Gwanwyn 2015</u>

- Cymhwysedd? (Canllawiau, Polisi, Cod neu Arfer Gorau)
- Diffiniadau? (h.y. Tâl Uwch Reolwyr)
- Rhestr o Sectorau Cyhoeddus
- Cynllunio'r Camau Nesaf
- Cadarnhau Adnoddau

**Cam 2 – Egwyddorion Tâl y Sector Cyhoeddus**

Dyfarnu Taliadau / Egwyddorion Taliadau – <u>erbyn Gwanwyn 2015</u>

- Staff
  - Cwmpas Dyfarndaliadau yn y dyfodol
  - Datblygiad Cyflog
  - Cyflog Byw / Contractau Dim Oriau
  - Ffocws ar Ddyfarndaliadau
  - Llinell ar ddiswyddo
  - Ffocws ar Gyfanswm Taliadau / Aberthu cyflog
- Uwch Reolwyr

**Cam 3 – Diffinio Newid**

Canllawiau, Polisi, Cod neu Arfer Gorau – <u>erbyn Hydref 2015</u>

- Paratoi
  - Astudiaeth i ddulliau o dalu (15)
- Canllawiau
  - Diffiniadau (1)
  - Rhestr Termau (3)
- Arfer Gorau
  - Ymgynghorwyr Allanol – canllaw arfer gorau (11)
  - Pwyllgor Taliadau – canllaw arfer gorau / hyfforddiant (10)
- Polisi / Cod
  - Cyhoeddi gwybodaeth am bob cyflogai sy'n ennill dros £100k (18)
  - Angen manylion; Hawdd dod o hyd iddynt (19, 21)
  - Cyhoeddi datganiad polisi tâl (20)
  - Cyhoeddi penderfyniadau pwyllgorau taliadau (9)
  - Cyflog ar sail Perfformiad a Rheoli Doniau Mewnol (16, 17)
  - Grantiau (22)

**Cam 4 – Ymgorffori Newid / Busnes Arferol**

Llywodraethu / Newid - <u>Diwedd Hydref 2015</u>

- Sicrhau Cydymffurfiaeth (6, 13)
- Llunio adroddiad fel adroddiad SAC (23)

**Atodiad 2**

**Rhaglen Diwygio Llywodraeth Leol: Amserlen Amlinellol**

**Ionawr 2015**

Cyflwyno Bil Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Daw ymgynghoriad ar y Comisiwn Staff i'r Gwasanaethau Cyhoeddus i ben

**Chwefror 2015**

Cyhoeddi Papur Gwyn arall yn y Gyfres ar Ddiwygio Llywodraeth Leol

**Ebrill 2015**

Daw'r ymgynghoriad ar Bapur Gwyn arall yn y Gyfres ar Ddiwygio Llywodraeth Leol i ben

Sefydlu Comisiwn Staff Anstatudol i'r Gwasanaethau Cyhoeddus

**Tachwedd 2015**

Bydd Bil Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 yn cael Cydsyniad Brenhinol.

Caiff Ail Fil Llywodraeth Leol (Cymru) ei gyhoeddi ar ffurf ddrafft ar gyfer ymgynghoriad

**Ionawr/Chwefror 2016**

Gwneud Gorchmynion ar gyfer Uno Gwirfoddol

Daw ymgynghoriad ar ddrafft yr ail Fil Llywodraeth Leol (Cymru) i ben